# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gafwyd 15 Rhagfyr, 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Victor Hughes (Chair)<br>T Ll Hughes (Vice-Chair)<br><br>Jim Evans, John Griffith, K P Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, H E Jones, R Ll Jones, G O Jones, Cynghorydd R.Meirion Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO),<br>Rheolwr Cyllid (CK),<br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GJR),<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | R Dew, Carwyn Jones, A M Jones, Richard Owain Jones, J A Roberts a Nicola Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr. R. Meirion Jones ddiddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas ag Eitem 8 a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio.

Dywedodd Mr. H. Eifion Jones ei fod yn datgan diddordeb personol yn Eitem 8 gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Apêl Codi Arian ar gyfer Eisteddfod Llanidan. Nododd nifer o Aelodau eraill yr Ymddiriedolaeth eu bod hwythau hefyd yn aelodau o Bwyllgorau Apêl i Godi Arian ar gyfer Eisteddfodau Lleol o fewn eu hetholaethau. Dywedodd Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth y gofynnwyd am gyngor y Swyddog Monitro cyn y cyfarfod ac mai'r cyngor a gafwyd gan y Swyddog Monitro oedd y gallai aelodau'r Ymddiriedolaeth gymryd rhan yn y drafodaeth ar yr egwyddor o dderbyn cais gan Gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod. Fodd bynnag, os bydd yr Ymddiriedolaeth yn penderfynu cefnogi'r cais am arian tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir ar yr Ynys yn 2017 dywedodd y byddai angen gofyn am gyngor cyfreithiol pellach.

**2 COFNODION**

Cadarnhwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi, 2015 fel rhai cywir yn amodol ar newid i fersiwn Gymraeg y cofnodion yn Eitem 4 i ddarllen: -

*'Cododd Aelod y mater bod rhaid i Aelodau sefyll i siarad yng nghyfarfodydd y Cyngor Sir yn unol â 4.1.24.1 yn y Cyfansoddiad.'*

## 3 ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

- **Pwyllgor Grantiau Cyffredinol**

  Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2015 yn gywir ac fe'u mabwysiadwyd lle bo angen.

- **Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**

  Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2015 yn gywir ac fe'u mabwysiadwyd lle bo angen.

**MATERION YN CODI**

**Rheoli Buddsoddiadau**

Cyflwynwyd - y dyfyniad canlynol o gofnodion y Pwyllgor uchod fel a ganlyn: -

***'Argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn bod y £3 miliwn o werthu tir Rhosgoch yn cael ei roi ym mhortffolio cyfredol yr Ymddiriedolaeth Elusennol.'***

**PENDERFYNWYD bod y £3 miliwn o werthu tir Rhosgoch yn cael ei roi ym mhortffolio cyfredol yr Ymddiriedolaeth Elusennol.**

## 4 DIWEDDARIAD AR GRANTIAU 2015/16

Cyflwynwyd - adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â'r sefyllfa ynghylch grantiau a ddyfarnwyd yn 2015/16 ac a oedd yn rhoi gwybodaeth am incwm buddsoddi a diweddariad ar grantiau a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Adroddwyd bod y tabl yn yr adroddiad yn dangos y dyraniad grantiau ar gyfer 2015/16. Y cyfanswm a neilltuwyd ar gyfer y flwyddyn oedd £737,766 ac roedd £128,537 o'r swm hwnnw wedi ei hawlio hyd yn hyn (17.4%). Nid oes rhaid i'r sefydliadau hawlio eu dyraniad yn 2015/16 gan fod amod y grant yn dweud 'Bydd raid cwblhau unrhyw gynllun cyfalaf cyn pen 4 blynedd i flwyddyn dyrannu'r grant. Bydd unrhyw ddyraniad sydd ar ôl heb ei ddefnyddio ar ddiwedd 4 blynedd ariannol yn cael ei drosglwyddo'n ôl i Gronfa'r Ymddiriedolaeth'.

Rhaid cwblhau unrhyw gynllun cyfalaf cyn pen 4 blynedd ar gyfer y flwyddyn dyrannu'r grant. Bydd unrhyw ddyraniad sy'n weddill heb ei ddefnyddio ar ddiwedd 4 blynedd ariannol yn cael ei drosglwyddo yn ôl i'r Gronfa Ymddiriedolaeth.

Mae'r adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2014/15 yn dangos Incwm o £515,804 o'r buddsoddiadau o gymharu â £499,915 yn 2013/14. Mae'r dyraniad grant o £737,766 yn 2015/16 yn uwch na'r ffigyrau hyn ac yn debygol o fod yn uwch na'r incwm a ragwelir ar gyfer 2015/16. Fodd bynnag, dylid nodi bod lefel y grantiau a ddyfarnwyd yn llai na'r twf a ragwelir yng ngwerth y gronfa.

'Roedd tabl yn dangos y dyraniad grant ym mlynyddoedd ariannol 2008-2015 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. 'Roedd y tabl yn dangos bod dyraniadau grant o £469,863 o'r blynyddoedd cynt wedi eu dwyn ymlaen i 2015/16. Hyd yma, talwyd £306,654, sef 65% o'r cyfanswm a ddygwyd ymlaen. Mae hyn yn gadael balans o £163,208.92. O'r balans hwn, mae £29,238.19 ohono'n grantiau a gafodd eu dyfarnu dros 4 blynedd yn ôl ac felly ni chawsant eu hawlio yn unol ag amodau dyfarnu'r grant. Cynigiwyd yn yr adroddiad y dylai Swyddogion yr Ymddiriedolaeth ysgrifennu at y sefydliadau unigol nad ydynt wedi hawlio eu dyraniad grant yn ystod y cyfnodau 2008/09 i 2010/11 i'w hysbysu bod y grant wedi cael ei dynnu'n ôl yn unol â chanllawiau'r Ymddiriedolaeth Elusennol bod raid cwblhau prosiectau cyn pen pedair blynedd i'r dyfarniad grant.

'Roedd aelodau'r Pwyllgor yn ystyried y dylid cysylltu gyda sefydliadau nad ydynt wedi hawlio'r grantiau a ddyfarnwyd yn 2010/11 i ganfod a ydynt yn gallu cyflawni eu prosiectau a hawlio'r grant a ddyfarnwyd iddynt.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Awdurdodi Swyddogion yr Ymddiriedolaeth i ysgrifennu at y sefydliadau unigol nad ydynt wedi hawlio eu dyraniad grant yn ystod y cyfnodau 2008/09 a 2009/2010 i'w hysbysu bod y cynnig o grant wedi cael ei dynnu'n ôl erbyn hyn.**
- **Awdurdodi Swyddogion yr Ymddiriedolaeth i ysgrifennu at y sefydliadau unigol nad ydynt wedi hawlio eu dyraniad grant yn ystod y cyfnod 2010/11 i weld a ydynt yn gallu cwblhau eu prosiectau a hawlio'r grant a ddyfarnwyd iddynt.**
- **Nodi bod y lefel gwariant cyfredol yn uwch na'r incwm a gynhyrchir sy'n cael effaith ar falans cyfalaf cyffredinol y buddsoddiadau.**

## 5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A ( Paragraffau 14 a 16) o'r Ddeddf honno. "**

## 6 LLYWODRAETHIANT A GWEINYDDIAETH YR YMDDIRIEDOLAETH YN Y DYFODOL

Cyflwynwyd - adroddiad Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Ysgrifennydd Ymddiriedolaeth fod cyfarfod blaenorol yr Ymddiriedolaeth Elusennol llawn a gynhaliwyd ar 22 Medi, 2015 wedi codi mater gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth i'r dyfodol a'r posibilrwydd o benodi Ymddiriedolwyr o'r tu allan i'r Cyngor. Yn dilyn trafodaethau, penderfynwyd y dylai Panel o Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol a Swyddogion gyfarfod ac adrodd ar eu trafodaethau mewn cyfarfod i'r dyfodol. Adroddwyd ar ganfyddiadau'r Panel i'r Ymddiriedolaeth ynghylch aelodaeth, materion llywodraethiant a gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth i'r dyfodol.

'Roedd cynrychiolydd cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth wedi defnyddio trafodaethau'r Panel i lunio Manyleb ar gyfer Cyngor a Gwaith ar Lywodraethiant a Gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth a oedd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r Fanyleb ar gyfer Cyngor a Gwaith ar Lywodraethiant a Gweinyddiaeth Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.**

- **Awdurdodi cyllideb ddigonol i dalu unrhyw gwmni o Gyfreithwyr a benodir i wneud y gwaith yn unol â thelerau'r Cytundeb Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol perthnasol.**

- **Awdurdodi Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth i: -**

    - **benodi cwmni addas o Gyfreithwyr ar ôl i'r Panel ac unrhyw swyddogion a ddewisir ganddo werthuso'r cynigion;**

    - **gwneud unrhyw benderfyniad arall y gall bod ei angen i hwyluso naill ai penodi'r Cyfreithwyr hynny neu i gyflawni'r gwaith y gofynnwyd amdano gan gynnwys talu am y gwaith a wnaed o'r gyllideb a awdurdodwyd.**

- **Cytuno i gynnal sesiwn gweithdy ar gyfer yr Ymddiriedolwyr i drafod y papur opsiynau ar ddyddiad ac amser i'w pennu gan Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth.**

**7** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A ( Paragraff 14) o'r Ddeddf honno. "**

**8** **CYFRANIAD POSIB I'R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YN YNYS MÔN YN 2017**

Cyflwynwyd - adroddiad Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Ysgrifennydd Ymddiriedolaeth fod cais wedi dod i law gan Gadeirydd Pwyllgor Gwaith lleol yr Eisteddfod am gyfraniad tuag at y targed ariannol a osodwyd ar gyfer ar gyfer Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cytuno mewn egwyddor i gefnogi'r Eisteddfod a gwahodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith lleol i gyflwyno cais i'r Pwyllgor Adfywio;**
- **Gofyn i'r Pwyllgor Adfywio gyflwyno argymhellion o ran swm y cymorth ariannol ynghyd ag unrhyw amodau perthnasol a osodwyd ar y dyfarniad terfynol.**

‘Roedd Mr Jeff Evans yn dymuno cofnodi y byddai'n well ganddo gael barn gyfreithiol annibynnol mewn perthynas â'r mater hwn.

**Mr. T. Victor Hughes**
**Cadeirydd**